

Aseiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer
Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig**

Fersiwn derfynol Hydref 2016

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Julie Annetts				
Dyddiad:	Medi 2016				
Arweinydd polisi:	Lisa Dunsford/Julie Annetts				
Manylion cyswllt:	Julie Annetts est6061 Julie.annetts@wales.gsi.gov.uk				
Math o Raglen/Prosiect X <input type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	X <input type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? nac oes					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	X <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2012 					

- Ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. 4 Mawrth 2016
- Cyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn y pedwar rhanbarth cyntaf o fis Ebrill 2016
- Cwblhau a chyhoeddi'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a'r Cynllun Cyflawni erbyn mis Medi 2016

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Nodau

1. Diweddarau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a fydd yn sicrhau gwelliannau i feysydd blaenoriaeth a nodwyd.
 - Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant
 - Asesu, Diagnosis a Chymorth
 - Mynd i'r Afael ag Anghenion Cymorth
 - Addysg a Chyflogaeth

Canlyniadau

2. Pobl ag awtistiaeth yng Nghymru a'u gofalwyr a theuluoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Diweddariad o bolisi cyfredol ar awtistiaeth yw hwn.

Mae blaenoriaethau ar gyfer gweithredu wedi'u nodi mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i ystyried modelau o wasanaethau awtistiaeth ledled y DU a chyflwynwyd opsiynau seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion. Cytunodd y Gweinidogion i weithredu gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol i Gymru.

Bydd pobl ag awtistiaeth yng Nghymru yn parhau i brofi bylchau o ran y wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Nid oes cysylltiadau clir â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg heblaw bod unigolion ag awtistiaeth sy'n cyfathrebu'n Gymraeg fel eu mamiaith yn gallu cael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

1. Mae asesiad o waith ymchwil ac adborth rhanddeiliaid yn dangos na fydd y polisi hwn yn cael fawr o effaith ar y Gymraeg, heblaw bod gwybodaeth a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg i unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd sy'n dymuno cyfathrebu yn yr iaith. Mae hyn eisoes ar waith gyda deunyddiau cyfredol yn cael eu cynhyrchu gan Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig.
2. Mae, a bydd yr holl ddeunyddiau ac adnoddau yn parhau i fod ar gael yn ddwyieithog. Bydd cael asesiad, diagnosis a chymorth yn Gymraeg yn dibynnu ar sgiliau'r gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud y gwaith hwn a sgiliau'r gweithlu. Dechreuwyd ar y gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol ym mis Ebrill ac mae'r byrddau iechyd yn y pedwar rhanbarth cyntaf nawr yn recriwtio staff. Bydd gan y byrddau iechyd hyn ddyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Bydd hyfforddiant awtistiaeth arbenigol i staff yn dechrau ym mis Ionawr a bydd hyn yn cynnwys ystyried Safonau'r Gymraeg wrth gynllunio a chyflawni.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn a sefydliadau trydydd sector â buddiant.

Nid yw'n debygol y bydd gan grwpiau buddiant yn y Gymraeg ddiddordeb penodol yn y polisi hwn ac eithrio i sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Weithredu ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig i gytuno ar y blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y diweddariad o'r cynllun gweithredu ac ni soniodd yr aelodau, yn cynnwys y rhai a oedd yn cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid, am yr effaith ar y Gymraeg fel testun pryder.

Mae dogfennau ymgynghori yn cynnwys arolygon ar-lein ar y Cynllun Gweithredu Strategol a gwasanaethau yn cael eu darparu'n Gymraeg bob amser. Cynhaliodd swyddogion gyfarfodydd anffurfiol gyda grwpiau rhanddeiliaid yn cynnwys rhieni a gofalwyr, i drafod y

cynllun gweithredu. Er na ofynnwyd cwestiynau penodol am wasanaethau Cymraeg, ni fynegwyd unrhyw bryderon am ddarpariaeth Gymraeg. Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau'n bennaf ac mae ganddynt ddyletswyddau i ystyried darparu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg. Mewn digwyddiadau ymgynghori ffurfiol cynigir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn nigwyddiadau Llywodraeth Cymru, ond ni chawsom unrhyw gais am wasanaethau cyfieithu hyd yn oed mewn ardaloedd sy'n cynnwys cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Nid oes gwybodaeth genedlaethol ar gael am ddarparu gwasanaethau awtistiaeth penodol yn Gymraeg gan wasanaethau statudol.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol yn ddwyieithog. O'r 76 ymateb a dderbyniwyd, dim ond dau ohonynt oedd yn Gymraeg. Roedd un yn holi am ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymgynghoriad yn dangos bylchau mewn gwasanaethau i unigolion sy'n gofyn am wasanaethau Cymraeg.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Wrth ddatblygu'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, casglwyd gwybodaeth o ffynonellau eang i nodi bylchau mewn gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad byr o lenyddiaeth a sefydlu Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid. Yn 2012, cynhaliwyd digwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru gyda chymorth y trydydd sector ac unwaith eto yn 2015 cynhaliodd CLILC gyfres o arolygon ar-lein a chyfarfodydd dwyieithog gyda grwpiau rhanddeiliaid i nodi blaenoriaethau gweithredu. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft y diweddariad o'r cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2016. Ychydig o wybodaeth a gafwyd ar fylchau mewn gwasanaethau neu gamau gweithredu cadarnhaol ar gyfer Cymry Cymraeg ag awtistiaeth. Nid oedd yr adborth gan randdeiliaid yn nodi bylchau sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

Llywodraeth Cymru oedd yn arfer ariannu Rhwydwaith Cyn Diagnosis ac Ôl-ddiagnosis i Oedolion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac roedd hyn yn cynnwys datblygu llwybr diagnostig. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud i ystyried cyfieithu adnoddau asesu cenedlaethol cydnabyddedig i'r Gymraeg ond ni aethpwyd ati i wneud hyn gan na nodwyd galw am y ddarpariaeth. Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiagnosis Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig adroddiad ym mis Mawrth 2016. Nid oedd yr adroddiad yn nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaethau asesu a diagnosis drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Pa agweddau ar nodau ac amcanion y polisi a allai fod yn berthnasol i'r Gymraeg?
- Pa Safonau Cymraeg a allai fod yn berthnasol?
- A allai'r polisi effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac felly siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg?
- A allai'r cynnig effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, niferoedd siaradwyr Cymraeg, pa

mor gynaliadwy yw cymunedau Cymraeg, neu pa mor rugl a hyderus mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg?

- A allai'r polisi effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg?
- A allai'r polisi effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y Gymraeg neu a oes cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg neu ddefnydd ohoni drwy'r polisi hwn?

Mae'r polisi'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau awtistiaeth ac felly'n berthnasol i ddefnyddwyr Cymraeg.

Bydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Ni ddylai'r polisi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, niferoedd siaradwyr Cymraeg, pa mor gynaliadwy yw cymunedau Cymraeg neu pa mor rugl a hyderus mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Ni ddylai'r polisi effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ddarparu cymorth yn eu dewis iaith.

Ni ddylai'r polisi effeithio'n gadarnhaol nac yn negyddol ar y Gymraeg nac ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Mae gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol yn cael ei gyflwyno mewn saith rhanbarth bwrdd iechyd o fis Ebrill 2016 nes fis Mawrth 2019. Rhoddwyd arian i CLILC i arwain a chydgyssylltu'r gwaith a bydd hyn yn cynnwys nodi a yw anghenion siaradwyr Cymraeg ag awtistiaeth yn cael eu diwallu ac arwain a rhannu arferion da i wella gwasanaethau os oes galw am wella darpariaeth gwasanaethau Cymraeg.

Fel rhan o'r gwaith o ddarparu'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r gwasanaeth awtistiaeth integredig bydd yr holl ddeunyddiau ac adnoddau, yn cynnwys DVDs a'r wefan gysylltiedig, yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Nid oes effeithiau cadarnhaol penodol heblaw bod hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau ar gael yn ddwyieithog.

Effeithiau negyddol:

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol penodol.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Ni fydd y polisi yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Mae llenyddiaeth sydd ar gael yn awgrymu y bydd gan 1% o'r boblogaeth gyffredinol awtistiaeth. Adborth gan randdeiliaid yn cynnwys pobl ag awtistiaeth, rhieni a gofawyr a gweithwyr proffesiynol.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol:
Negyddol:
Niwtral: x
Anhysbys:

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|----------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | x <input type="checkbox"/> |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | <input type="checkbox"/> |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | <input type="checkbox"/> |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | <input type="checkbox"/> |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Bydd strategaeth gyfathrebu ddwyieithog yn cael ei datblygu i godi ymwybyddiaeth o wefan ASDinfowales a'r wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael.

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o'r cynllun gweithredu strategol yn ddwyieithog ym mis Mawrth 2016. Derbyniwyd 76 o ymatebion ysgrifenedig, dau ohonynt yn Gymraeg. Roedd un yn sôn am bwysigrwydd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ond ni fynegwyd unrhyw broblemau mawr am fylchau mewn gwasanaethau Cymraeg.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Ni chodwyd unrhyw faterion am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg gan yr amrywiaeth eang o randdeiliaid a oedd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol, fel gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, sefydliadau'r trydydd sector a phobl ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, bydd y gwaith o ddarparu'r cynllun gweithredu ar gyfer awtistiaeth a'r gwasanaeth awtistiaeth integredig yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg pan nodir galw am ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd gwybodaeth am y galw am gymorth Cymraeg yn cael ei chasglu fel rhan o'r data monitro ar gyfer y gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy sicrhau bod yr holl adnoddau, yn cynnwys tudalennau'r wefan, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Drwy gyhoeddi cynllun cyflawni, adroddiad diweddar dwyieithog blynyddol ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid drwy grŵp cynghori ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Byddwn yn cynnwys ystyriaeth o'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwerthusiad annibynnol arfaethedig o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:**Dileer fel y bo'n briodol:*

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Enw: Lisa Dunsford

Adran: Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad(au): Medi 2016

Llofnod:

Dyddiadau adolygu: Medi 2017

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad adolygu

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad adolygu

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad adolygu

